# Gyrfaoedd a'r byd gwaith: swyddogaethau a chyfrifoldebau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



# Gyrfaoedd a'r byd gwaith: swyddogaethau a chyfrifoldebau

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Penaethiaid, prifathrawon, cyrff llywodraethu, pwyllgorau rheoli, cydlynwyr gyrfaoedd a'r byd gwaith, cydlynwyr addysg bersonol a chymdeithasol ac athrawon a darlithwyr addysg entrepreneuriaeth ym mhob ysgol a gynhelir, colegau addysg bellach a lleoliadau dysgu yn y gwaith, cynghorwyr Gyrfa Cymru, cydlynwyr Bagloriaeth Cymru, cydlynwyr Sgiliau Hanfodol Cymru, awdurdodau lleol, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a darparwyr rhaglenni hyfforddiant addysg entrepreneuriaeth. |
| **Trosolwg** | Diben y canllawiau hyn yw egluro rolau a ffiniau swyddogaethol priodol arweinwyr gyrfaoedd, athrawon a thiwtoriaid personol, cydlynwyr gyrfaoedd a phrofiad gwaith, hyfforddwyr dysgu a chynghorwyr gyrfaoedd ym maes gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG). |
| **Camau i'w cymryd** | Dylai darparwyr dysgu ystyried y canllawiau hyn wrth weithredu eu darpariaeth addysg entrepreneuriaeth. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Yr Is-adran Cwricwlwm<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 1707<br>e-bost: cwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*; *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru: Canllawiau i ysgolion a cholegau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid: Cynllun Gweithredu i Gymru 2010–15* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc* (Llywodraeth Cymru, 2011) |

ISBN digidol: 978 0 7504 8293 6
© Hawlfraint y Goron 2012
WG15430

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**
Beth yw pwrpas y canllawiau hyn? 2
Ar gyfer pa gynulleidfa y bwriedir y canllawiau hyn? 2
Gyrfaoedd a'r byd gwaith – ychydig o ddiffiniadau 2
Beth yw cyfrifoldebau'r rhai sydd yn cyflwyno GBG? 3
Sut bydd darpariaeth GBG darparwr dysgu'n cael ei arolygu? 4

**Swyddogaethau a chyfrifoldebau** **5**
Rhestr gyfeirio 1: cyrff llywodraethu/pwyllgorau rheoli 7
Rhestr gyfeirio 2: uwch arweinwyr 8
Rhestr gyfeirio 3: cydlynwyr GBG 12

**Rhestrau cyfeirio 4–8: staff sydd yn rhan o'r gwaith o gyflwyno'r ddarpariaeth GBG** **15**
Rhestr gyfeirio 4: staff addysgu GBG 17
Rhestr gyfeirio 5: anogwyr dysgu 19
Rhestr gyfeirio 6: tiwtoriaid personol 21
Rhestr gyfeirio 7: cydlynwyr profiad gwaith 22
Rhestr gyfeirio 8: gwasanaethau Gyrfa Cymru 24

# Cyflwyniad

## Beth yw pwrpas y canllawiau hyn?

Daeth *Uchelgeisiau i'r dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru (2010)*, adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (ar y pryd), i'r casgliad bod 'angen mwy o eglurder o ran cyfraniadau, swyddogaethau a chyfrifoldebau ysgolion, colegau a Gyrfa Cymru'.

Roedd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru) roi 'mwy o eglurder drwy ganllawiau ynglŷn â swyddogaethau unigol a ffiniau gweithredu arweinwyr gyrfaoedd, athrawon a thiwtoriaid personol, cyd-drefnwyr gyrfaoedd a phrofiad gwaith, anogwyr dysgu a chynghorwyr gyrfaoedd o ran cyflwyno GBG'.

## Ar gyfer pa gynulleidfa y bwriedir y canllawiau hyn?

Bwriedir y ddogfen ganllawiau ar gyfer darparwyr dysgu a'r amrywiol sefydliadau sydd yn rhan o'r gwaith o gyflwyno gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG). Mae wedi ei anelu'n benodol at y rhai sydd yn gyfrifol am sicrhau bod eu dysgwyr yn derbyn yr hyn sydd yn ddyledus iddyn nhw o ran GBG a'r rhai sydd yn ei gyflwyno, yn cynnwys:

- cyrff llywodraethu a phwyllgorau rheoli
- penaethiaid, prifathrawon colegau ac uwch arweinwyr eraill
- cydlynwyr GBG
- cydlynwyr profiad gwaith
- staff addysgu
- anogwyr dysgu
- tiwtoriaid personol
- staff Gyrfa Cymru.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith – ychydig o ddiffiniadau

i) **Addysg gyrfaoedd** yw darparu rhaglen o weithgareddau dysgu cynlluniedig blaengar sydd yn helpu pobl ifanc i ychwanegu at eu hunanymwybyddiaeth, i archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw a datblygu'r sgiliau sydd yn angenrheidiol iddyn nhw er mwyn penderfynu ar gynlluniau gyrfa a gweithredu'r cynlluniau hynny.

ii) **Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfa** yw darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau diduedd i helpu pobl ifanc i seilio eu dewis o lwybr gyrfa ar wybodaeth.

iii) **Byd gwaith**. Nid byd cyflogaeth am dâl yn unig a olygir. Gall cyfleoedd i wirfoddoli a chyfranogiad cymunedol hefyd gyfrannu tuag at ddatblygu sgiliau sydd yn gysylltiedig â gwaith mewn pobl ifanc.

## Beth yw cyfrifoldebau'r rhai sydd yn cyflwyno GBG?

Mae'n ddyletswydd statudol ar ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant i ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n canolbwyntio ar waith yn unol â GBG sydd yn rhan o ofynion sylfaenol y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr 11 i 16 oed mewn ysgolion a gynhelir.

Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (y 'Mesur'), a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009, yn creu hawl i ddysgwyr 14 i 19 oed ddilyn cwrs astudio o gwricwlwm lleol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gydweithredu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod mwy o amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer pobl ifanc i gyd-fynd â'u hanghenion penodol eu hunain. Cynigir y dewis ehangach yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16.

Yn ogystal â chyflwyno dewis ehangach o gyrsiau mae'r Mesur yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc, drwy eu Llwybrau Dysgu[1], yn medru cael cymorth gan amrywiol wasanaethau i'w cynorthwyo i ddysgu drwy:

- anogwr dysgu
- gwasanaethau cymorth personol
- cyngor a chyfarwyddyd ynghylch gyrfaoedd.

[1] Mae i Llwybrau Dysgu14–19 a gyflwynwyd yn 2004 chwe phrif elfen:
- Llwybr Dysgu unigol i gwrdd ag anghenion dysgwyr.
- Mwy o ddewis a hyblygrwydd o ran rhaglenni a ffyrdd o ddysgu mewn dewislen o opsiynau cydweithredol.
- Craidd Dysgu sydd yn cynnwys yr wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau, agweddau, gwerthoedd a phrofiad y mae eu hangen ar bob person ifanc.
- Cymorth anogwr dysgu.
- Gwasanaethau cymorth personol.
- Cyngor a chyfarwyddyd ynghylch gyrfaoedd.

## Sut bydd darpariaeth GBG darparwr dysgu'n cael ei arolygu?

Yn ystod arolwg Estyn bydd y tîm arolygu'n ystyried ansawdd y gofal, y cymorth a'r cyfarwyddyd a ddarperir. Byddan nhw'n ystyried pa mor dda y mae darparwr dysgu'n gofalu bod amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael a pha mor dda y mae'n cyflawni'r dyletswyddau o ran cyfarwyddyd. Bydd angen i ddarparwyr dysgu fedru dangos eu bod yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ynghylch gyrfaoedd ar gael i'w dysgwyr a bod pob gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a ddarperir yn cael ei gyflwyno mewn modd diduedd[2].

Dylai'r arolygwyr asesu hefyd i ba raddau mae'r ddarpariaeth o ran cymorth personol ac arbenigol yn gydlynol ac effeithiol.

[2] Adran 40 (6) Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

# Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Mae'n ofynnol i ysgolion a gynhelir, colegau a darparwyr dysgu eraill seilio eu darpariaeth o ran GBG ar *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mae gan ddarparwyr dysgu hyblygrwydd i benderfynu sut orau i gyflwyno darpariaeth GBG yn eu lleoliad dysgu: anogir nhw i gadw'r arferion da mewn cof wrth wneud hynny er mwyn helpu i sicrhau y bydd eu dysgwyr yn cael eu paratoi yn y ffordd orau ar gyfer byd gwaith a'u datblygiad gyrfa bersonol.

Corff llywodraethu/pwyllgor rheoli ac uwch dîm rheoli y darparwyr dysgu sydd yn gyfrifol yn gyffredinol am ddarpariaeth GBG a chydlynu'r ddarpariaeth. Bydd pob darparydd dysgu'n penderfynu sut bydd swyddogaethau a chyfrifoldebau GBG yn cael eu rhannu ymysg ei staff er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u sgiliau a'u harbenigedd.

Rhaid i'r rhaglen GBG gael ei chydlynu, ei chynllunio a'i chyflwyno gan staff y prif leoliad dysgu. Er mai'r darparydd dysgu sydd yn gyfrifol am gydlynu a chyflwyno GBG yn effeithiol ni ellir cyflwyno rhaglen effeithiol ond mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, fel Gyrfa Cymru, cyflogwyr, entrepreneuriaid, cynghorwyr, rhieni/gofalwyr, hyfforddwyr a grwpiau cymunedol sydd yn cynnig cyfleoedd perthnasol o fewn eu meysydd arbenigedd.

**Tabl 1** Dengys y tabl gan bwy y mae'r prif gyfrifoldeb am GBG.

**GBG – Swyddogaethau a chyfrifoldebau**

| | | Corff llywodraethu | Uwch arweinwyr | Cydlynwyr GBG | Staff addysgu | Anogwyr dysgu | Tiwtoriaid personol | Cydlynwyr lleoliadau profiad gwaith | Gyrfa Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth strategol** | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | |
| **Cynllunio** | Arwain | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | |
| | Cefnogi | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cyflwyno** | Arwain | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Cefnogi | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Sicrhau ansawdd** | Arwain | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | |
| | Cefnogi | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Mae rhestr gyfeirio am bob un o'r swyddogaethau a nodir uchod lle mae eu prif gyfrifoldebau GBG yn cael eu crynhoi. Nid ydyn nhw'n rhestrau cyflawn ond byddan nhw'n dangos i'r darparwyr dysgu a'u partneriaid pa rai yw'r prif feysydd i'w hystyried. Gellir eu defnyddio i:

- archwilio'r arfer presennol
- nodi bylchau yn y cyflwyno ac ymdrin â'r bylchau hynny
- crynhoi'r prif gamau i'w cymryd i wella a mireinio'r ddarpariaeth o GBG.

Mae rhai meysydd o gyfrifoldeb mewn mwy nag un rhestr gyfeirio a'r darparydd dysgu ddylai benderfynu pa aelod o staff sydd yn y sefyllfa orau i fod yn gyfrifol am y weithred honno.

.

## Rhestr gyfeirio 1: cyrff llywodraethu/pwyllgorau rheoli

| | A ydych chi, fel corff llywodraethu/pwyllgor rheoli, yn: | Ydw | Nac Ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth strategol | 1. ystyried canllawiau statudol? | | | |
| | 2. sicrhau bod GBG yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl ddysgwyr? | | | |
| | 3. ystyried sut y gellir cwrdd ag anghenion cefnogi dysgu'r holl ddysgwyr? | | | |
| | 4. cyflwyno a sicrhau y darperir gwasanaethau cefnogi dysgwyr ar gyfer dysgwyr perthnasol? | | | |
| | 5. ei gwneud yn hwylus i ddysgwyr gael gwasanaethau cefnogi personol? | | | |
| | 6. gofalu bod darpariaeth anogwr dysgu ar gael i arwain, hyfforddi a mentora pobl ifanc fel y medran nhw gynllunio eu Llwybrau Dysgu unigol eu hunain, gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, pennu nodau a dod yn ddysgwyr annibynnol? | | | |
| | 7. sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ar gael i'r holl ddysgwyr fel rhan o'u Llwybr Dysgu 14–19? | | | |
| | 8. sicrhau bod yr holl wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd:<br>i. yn cael eu cyflwyno mewn modd diduedd?<br>ii. y gorau ar gyfer y dysgwr?<br>iii. yn osgoi hyrwyddo diddordebau neu ddyheadau'r ysgol, y sefydliad neu berson arall, a hynny ar draul lles y person ifanc? | | | |

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:**

## Rhestr gyfeirio 2: uwch arweinwyr

| | A ydych chi, fel uwch arweinydd, yn: | Ydw | Nac Ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth strategol** | 1. ystyried canllawiau statudol? | | | |
| | 2. sicrhau bod uwch staff yn rhan o'r broses o arwain, gweinyddu a pherchnogi polisi a chyflwyno GBG? | | | |
| | 3. datblygu a gweithredu polisi GBG gan fanylu ar y modd o reoli, cyflwyno a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth GBG[3]? | | | |
| | 4. hyrwyddo gwerth darpariaeth GBG ymysg staff, dysgwyr, partneriaid a'r gymuned? | | | |
| | 5. sicrhau bod dysgwyr yn medru cael cefnogaeth bersonol drwy gyfrwng gwasanaethau bugeiliol eich sefydliad? | | | |
| | 6. sicrhau bod gofynion y fframwaith GBG yn cael eu cyflwyno mewn modd priodol? | | | |
| | 7. clustnodi adnoddau priodol ar gyfer gweithredu darpariaeth GBG, e.e. staffio, amser, adnoddau ariannol? | | | |
| | 8. ystyried pennu swyddogaethau cydlynu ar gyfer aelodau o'r staff, e.e. cydlynydd GBG[4]; cydlynydd annog dysgu? | | | |
| | 9. sicrhau y gellir darparu cefnogaeth unigol mewn man cyfrinachol a diogel? | | | |
| | 10. sicrhau bod digon o staff ar gael i gwrdd ag anghenion yr holl ddysgwyr am anogaeth ddysgu[5]? | | | |

[3] Mae canllawiau ar ddatganiadau polisi GBG ar dudalennau 7 i 8 o *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

[4] Cydlynydd GBG – sampl o swydd-ddisgrifiad: www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/careersandtheworldofwork/templates/?skip=1&lang=cy

[5] Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mai isafswm priodol y gymhareb anogwr dysgu i ddysgwyr yw 1:80.

| | A ydych chi, fel uwch arweinydd, yn: | Ydw | Nac Ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio | 11. cynnal dadansoddiadau o anghenion y rhai a fydd yn cyflawni swyddogaeth anogwr dysgu am hyfforddiant? | | | |
| | 12. cynnal archwiliadau[6] o'r ddarpariaeth GBG mewn perthynas â deilliannau dysgu GBG[7]? | | | |
| | 13. creu cynllun ar gyfer datblygu[8] ar sail canlyniadau eich archwiliad GBG, sydd yn dangos sut y bydd deilliannau dysgu GBG yn cael eu cyflwyno ar draws y cwricwlwm, pa bryd a chan bwy? | | | |
| | 14. cynnal dadansoddiad o anghenion dysgwyr am wasanaeth anogwr dysgu? | | | |
| | 15. nodi sut y cyflwynir pob elfen o swyddogaeth yr anogwr dysgu? | | | |
| | 16. darparu cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth? | | | |
| | 17. datblygu, ac adolygu'n gyson, systemau i arwain a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth GBG, e.e. polisïau; trefniadau rhannu gwybodaeth? | | | |
| | 18. sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ar gael i'r holl ddysgwyr fel rhan o'u Llwybr Dysgu? | | | |
| | 19. darparu cyfleoedd i ddysgwyr fod yn rhan o'r broses o ddatblygu, darparu a gwerthuso GBG a gwasanaethau cefnogi? | | | |

[6] Mae canllawiau ar archwiliadau GBG ar dudalennau 11 i 20 o *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

[7] Gweler Atodiad A.

[8] Mae canllawiau ar gynllunio ar gyfer datblygu GBG ar dudalennau 21 i 25 o *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) ac ar dudalen we gyrfaoedd a'r byd gwaith Llywodraeth Cymru.

| | A ydych chi, fel uwch arweinydd, yn: | Ydw | Nac Ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithio mewn partneriaeth** | 20. creu a chynnal perthynas weithio agos gydag asiantaethau sydd yn medru cynorthwyo gyda chyflwyno GBG? | | | |
| | 21. trafod a chytuno swyddogaethau a chyfrifoldebau[9] pob partner sydd yn rhan o'r broses o gyflwyno GBG, gan gynnwys egluro ffiniau'r swyddogaethau? | | | |
| | 22. trafod cytundeb partneriaeth blynyddol gyda Gyrfa Cymru? | | | |
| | 23. sefydlu trefniadau cytunedig ar gyfer cyfeirio, protocolau rhannu gwybodaeth a threfniadau trosglwyddo rhwng staff sydd yn gweithio'n fewnol a hefyd rhwng eich sefydliad a darparwyr dysgu lleol? | | | |
| **Sicrhau ansawdd** | 24. creu strategaeth sicrhau ansawdd a chynllun gweithredu GBG mewn cysylltiad â Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru? | | | |
| | 25. darparu cyfleoedd i ddysgwyr fod yn rhan o'r broses o werthuso gwasanaethau cefnogi? | | | |
| | 26. casglu adborth gan ddysgwyr a staff ynglŷn ag ystod, lefel ac ansawdd y ddarpariaeth GBG? | | | |
| | 27. dadansoddi faint o ddefnydd a wneir o'r ddarpariaeth GBG? | | | |
| | 28. dadansoddi'r nifer sydd yn cael eu cyfeirio rhwng anogwyr dysgu a chynghorwyr gyrfa? | | | |
| | 29. canfod deilliannau dysgwyr? | | | |

[9] Er enghraifft, rhwng anogwyr dysgu a chynghorwyr Gyrfa Cymru, er enghraifft:
a) anogwyr dysgu'n darparu cefnogaeth mewn perthynas â dewis pynciau a chynghorwyr Gyrfa Cymru'n cynghori ynglŷn â sut y gall y dewis o bynciau effeithio ar lwybrau gyrfa
b) cynghorwyr Gyrfa Cymru'n hysbysu anogwyr dysgu am raglenni cyfweliadau cyfarwyddyd fel y gall yr anogwyr dysgu gyflwyno gwybodaeth gefndirol briodol ynglŷn ag unigolion, h.y. cyflawniadau academaidd posibl neu rwystrau cyfredol yn erbyn cynnydd
c) sut y bydd cynghorwyr Gyrfa Cymru'n cyflwyno canlyniadau cyfweliadau gyrfa ynghyd ag unrhyw weithredu y cytunwyd arno i'r anogwyr dysgu.

| | A ydych chi, fel uwch arweinydd, yn: | Ydw | Nac Ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau ansawdd (parhad)** | 30. canfod a yw'r gweithgareddau'n darparu cyfleoedd i ddatblygu'r agweddau a'r gwerthoedd a restrir yn GBG? | | | |
| | 31. adolygu sgôp y ddarpariaeth mewn perthynas â data demograffig a data arall, gan gynnwys gwybodaeth am y farchnad lafur? | | | |
| | 32. defnyddio'r wybodaeth uchod fel sylfaen ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth GBG ar gyfer y dyfodol? | | | |

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:**

## Rhestr gyfeirio 3: cydlynwyr GBG

| | A ydych chi, fel cydlynydd GBG, yn: | Ydw | Nac Ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth strategol | 1. ystyried canllawiau statudol? | | | |
| | 2. datblygu a gweithredu polisi GBG gan fanylu ar y modd o reoli, cyflwyno a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth GBG[10]? | | | |
| | 3. hyrwyddo gwerth darparu GBG ymysg staff, dysgwyr, partneriaid a'r gymuned? | | | |
| | 4. disgwyl i'r adrannau i gyd wneud eu rhan i gyflwyno GBG ac ymgysylltu â chyflogwyr? | | | |
| Cynllunio | 5. cynnal archwiliadau[11] o'r ddarpariaeth GBG mewn perthynas â deilliannau dysgu GBG[12]? | | | |
| | 6. creu cynllun ar gyfer datblygu[13], ar sail canlyniadau eich archwiliad GBG, sydd yn dangos sut y bydd deilliannau dysgu GBG yn cael eu cyflawni ar draws y cwricwlwm, pa bryd a chan bwy? | | | |
| | 7. darparu cyfleoedd i ddysgwyr fod yn rhan o'r broses o ddatblygu, darparu a gwerthuso GBG a gwasanaethau cefnogi? | | | |
| | 8. darparu cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn perthynas â GBG, e.e. trwy leoliadau datblygu proffesiynol? | | | |
| Cyflwyno | **Os ydych yn ymwneud hefyd ag elfennau o'r gwaith o gyflwyno GBG cyfeiriwch at Restr gyfeirio 4: staff addysgu GBG** | | | |

[10] Mae canllawiau ar ddatganiadau polisi GBG ar dudalennau 7 i 8 o *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) ac ar dudalen we gyrfaoedd a'r byd gwaith Llywodraeth Cymru.

[11] Mae canllawiau ar archwiliadau GBG ar dudalennau 11 i 20 o *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) ac ar dudalen we gyrfaoedd a'r byd gwaith Llywodraeth Cymru.

[12] Gweler Atodiad A.

[13] Mae canllawiau ar gynllunio ar gyfer datblygu GBG ar dudalennau 21 i 25 o *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

| | A ydych chi, fel cydlynydd GBG, yn: | Ydw | Nac Ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithio mewn partneriaeth** | 9. creu a chynnal perthynas weithio agos gydag asiantaethau sydd yn medru cynorthwyo gyda chyflwyno GBG? | | | |
| | 10. trafod a chytuno swyddogaethau a chyfrifoldebau[14] pob partner sydd yn rhan o'r broses o gyflwyno GBG, gan gynnwys egluro ffiniau'r swyddogaethau? | | | |
| | 11. trafod cytundeb partneriaeth blynyddol gyda Gyrfa Cymru? | | | |
| | 12. sefydlu trefniadau cytunedig ar gyfer cyfeirio, protocolau rhannu gwybodaeth a threfniadau trosglwyddo rhwng staff sydd yn gweithio'n fewnol a hefyd rhwng eich sefydliad a darparwyr dysgu lleol? | | | |
| | 13. cwrdd ag aelodau o'r staff, a threfnu cyfarfodydd gyda'r staff, er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer cynllunio, cyflwyno a gwerthuso? | | | |
| **Sicrhau ansawdd** | 14. datblygu strategaeth sicrhau ansawdd a gweithredu er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth GBG a'r cydweithredu? | | | |
| | 15. gweithredu'r strategaeth sicrhau ansawdd? | | | |
| | 16. darparu cyfleoedd i ddysgwyr fod yn rhan o'r broses o werthuso'r gwasanaethau cefnogi? | | | |
| | 17. casglu adborth gan ddysgwyr a staff ynglŷn ag ystod, lefel ac ansawdd y ddarpariaeth GBG? | | | |
| | 18. dadansoddi faint o ddefnydd a wneir o'r ddarpariaeth GBG? | | | |
| | 19. dadansoddi'r nifer sydd yn cael eu cyfeirio rhwng anogwyr dysgu a chynghorwyr gyrfa? | | | |

[14] Er enghraifft, rhwng anogwyr dysgu a chynghorwyr Gyrfa Cymru, er enghraifft:
a) anogwyr dysgu'n darparu cefnogaeth mewn perthynas â dewis pynciau a chynghorwyr Gyrfa Cymru'n cynghori ynglŷn â sut y gall y dewis o bynciau effeithio ar lwybrau gyrfa
b) Cynghorwyr Gyrfa Cymru'n hysbysu anogwyr dysgu am raglenni cyfweliadau cyfarwyddyd fel y gall yr anogwyr dysgu gyflwyno gwybodaeth gefndirol briodol ynglŷn ag unigolion, h.y. cyflawniadau academaidd posibl neu rwystrau cyfredol yn erbyn cynnydd
c) sut y bydd cynghorwyr Gyrfa Cymru'n cyflwyno canlyniadau cyfweliadau gyrfa ynghyd ag unrhyw weithredu y cytunwyd arno i'r anogwyr dysgu.

| | A ydych chi, fel cydlynydd GBG, yn: | Ydw | Nac Ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau ansawdd (parhad)** | 20. canfod effaith y ddarpariaeth GBG, gan gynnwys deilliannau'r dysgwyr? | | | |
| | 21. nodi a yw'r gweithgareddau'n darparu cyfleoedd i ddatblygu'r agweddau a'r gwerthoedd a restrir yn y GBG? | | | |
| | 22. adolygu sgôp y ddarpariaeth mewn perthynas â data demograffig a data arall? | | | |
| | 23. defnyddio'r wybodaeth uchod fel sylfaen ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth GBG ar gyfer y dyfodol? | | | |
| | 24. cyflwyno'r data a'r canfyddiadau sicrhau ansawdd i'r tîm arwain a'r corff llywodraethu? | | | |
| | 25. cynghori'r tîm arwain a'r corff llywodraethu ynglŷn â'r meysydd i'w datblygu? | | | |
| **Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:** | | | | |

# Rhestrau cyfeirio 4–8: staff sydd yn rhan o’r gwaith o gyflwyno’r ddarpariaeth GBG

Darperir rhestrau cyfeirio ar gyfer pum prif grŵp o staff sydd yn rhan o’r gwaith o gyflwyno’r ddarpariaeth GBG:

- Rhestr gyfeirio 4: staff addysgu GBG
- Rhestr gyfeirio 5: anogwyr dysgu
- Rhestr gyfeirio 6: tiwtoriaid personol
- Rhestr gyfeirio 7: cydlynwyr profiad gwaith
- Rhestr gyfeirio 8: gwasanaethau Gyrfa Cymru.

Mae’r rhestrau cyfeirio eraill yn amlinellu rhan y staff mewn gwahanol gamau yn y ddarpariaeth GBG, fel cynllunio a sicrhau ansawdd, ond mae’r swyddogaethau canlynol yn canolbwyntio’n bennaf – ond nid yn llwyr – ar gyflwyno GBG.

Dylai’r staff dan sylw fod yn ymwybodol o’r canlynol:

- bod Llwybrau Dysgu 14–19 yn cynnwys gofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 4, rhaglenni o’r cwricwlwm lleol cydweithredol, y Craidd Dysgu a phrofiadau ehangach
- y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol drwy’r gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae anghenion pobl ifanc yn aml yn cael eu cwrdd gan fwy nag un person o fewn y lleoliad dysgu. Er enghraifft, efallai y bydd person ifanc sydd angen cymorth i ddewis pynciau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn troi at yr athro neu’r athrawes pwnc, ei diwtor personol a/neu'r anogwr dysgu. Mae’n bosibl y bydd y rhain yn penderfynu ceisio arbenigedd cynghorydd Gyrfa Cymru i helpu i ganfod goblygiadau o ran llwybrau gyrfa yn y dyfodol.

### Anogwyr dysgu a chynghorwyr Gyrfa Cymru

Er bod rhai elfennau o debygrwydd rhwng swyddogaethau anogwyr dysgu a chynghorwyr Gyrfa Cymru, mae rhai gwahaniaethau allweddol o ran ffocws. Nodir rhai enghreifftiau isod.

### Ystod oedran

- Efallai y bydd y rhai sydd yn cyflawni swyddogaethau anogwr dysgu’n rhoi cymorth i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed yn yr ysgol, yn unol â chyfarwyddyd eu rheolwr llinell.
- Bydd cynghorydd Gyrfa Cymru’n gweithio’n bennaf gyda dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 a’r ddarpariaeth ôl-16.

**Dewis pynciau yng Nghyfnod Allweddol 4**

- Efallai y bydd y rhai sydd yn cyflawni swyddogaethau anogwr dysgu'n rhoi cymorth i ddysgwyr wrth iddyn nhw feddwl am Llwybrau Dysgu yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.
- Bydd cynghorydd Gyrfa Cymru'n helpu dysgwyr i ystyried goblygiadau'r dewisiadau hynny o ran eu llwybrau dysgu a gyrfa yn y dyfodol.

**Llwybrau Dysgu**

- Efallai y bydd y rhai sydd yn cyflawni swyddogaethau anogwr dysgu'n rhoi cymorth i ddysgwyr i wneud dewisiadau mewn perthynas â'u Llwybr Dysgu.
- Bydd cynghorydd Gyrfa Cymru'n helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â'u llwybrau dysgu a gyrfa.

## Rhestr gyfeirio 4: staff addysgu GBG

| | A ydych chi, fel rhywun sydd yn addysgu elfennau o GBG, yn: | Ydw | Nac ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio | 1. ystyried canllawiau statudol? | | | |
| | 2. cynllunio darpariaeth yn y modd gorau i gwrdd ag anghenion eich dysgwyr[15]? | | | |
| | 3. darparu cyfleoedd i ddysgwyr fod yn rhan o'r broses o ddatblygu a darparu GBG a gwasanaethau cefnogi? | | | |
| | 4. dewis deunydd a fydd yn creu cwricwlwm ystyrlon, perthnasol ac ysgogol? | | | |
| | 5. sicrhau bod asesiad ac achrediad priodol ar gael i'r dysgwyr? | | | |
| | 6. sicrhau bod GBG yn cael ei wreiddio yn nogfen Llwybr Dysgu dysgwyr? | | | |
| Cyflwyno | 7. rhoi gwybod i ddysgwyr beth yw eu hawl o ran GBG? | | | |
| | 8. rhoi gwybod i ddysgwyr bod darpariaeth GBG ar gael iddyn nhw? | | | |
| | 9. dangos i ddysgwyr sut y medran nhw gofnodi gweithgareddau GBG yn eu dogfen Llwybr Dysgu? | | | |
| | 10. sicrhau bod pob gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd GBG a ddarperir yn ddiduedd a'i fod y gorau ar gyfer y dysgwr? | | | |
| | 11. defnyddio amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu? | | | |
| | 12. galluogi dysgwyr i ddefnyddio eu dewis ddull o gyfathrebu? | | | |
| | 13. cyflwyno'r ddarpariaeth GBG mewn dull a fydd yn ysgogi'r dysgwyr? | | | |

[15] Mae canllawiau penodol mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anableddau a'r rhai nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddyn nhw ar dudalen 4 o *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

| | A ydych chi, fel rhywun sydd yn addysgu elfennau o GBG, yn: | Ydw | Nac ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno (parhad)** | 14. helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth eang? | | | |
| | 15. annog dysgwyr i archwilio'r dewisiadau sydd ar gael iddyn nhw? | | | |
| | 16. cyflwyno gwybodaeth am dueddiadau'r farchnad lafur a chyfleoedd sydd yn gysylltiedig â llwybrau galwedigaethol ac academaidd? | | | |
| | 17. galluogi dysgwyr i archwilio a phrofi Llwybrau Dysgu a llwybrau dilyniant posibl? | | | |
| | 18. annog dysgwyr i gyfrannu'n ddigymell tuag at eu dogfen Llwybrau Dysgu? | | | |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | 19. ymgysylltu â nifer o wahanol bartneriaid i fod yn rhan o'r gwaith o gyflwyno GBG? | | | |
| **Sicrhau ansawdd** | 20. gweithredu'r strategaeth sicrhau ansawdd GBG? | | | |
| | 21. cyflwyno data/canfyddiadau sicrhau ansawdd i'r cydlynydd GBG neu berson arall a ddewiswyd i arwain? | | | |

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:**

## Rhestr gyfeirio 5: anogwyr dysgu

Nid yw Llywodraeth Cymru'n dweud sut y dylai'r swyddogaeth annog dysgu gael ei chyflwyno – rhaid i ddarparwyr dysgu benderfynu sut orau i gwrdd ag anghenion eu dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o leoliadau dysgu, aelodau presennol o'r staff sydd yn cyflawni swyddogaethau annog dysgu, a'r rheini, efallai, yn cyflwyno rhannau o swyddogaeth anogwr dysgu. Felly mae'n bwysig iawn archwilio'r ddarpariaeth gyfredol cyn cynllunio cefnogaeth.

| | A ydych chi, fel rhywun sydd yn cyflawni swyddogaethau annog dysgu, yn: | Ydw | Nac ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno:** Datblygu sgiliau a gwneud penderfyniadau | 1. helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u harddulliau dysgu a gwneud y defnydd gorau ohonyn nhw? | | | |
| | 2. helpu dysgwyr i fod yn ddysgwyr annibynnol? | | | |
| | 3. helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau i'w galluogi i gael eu hysgogi ac i ymgysylltu? | | | |
| | 4. helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a mentergarwch? | | | |
| | 5. helpu dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol? | | | |
| | 6. helpu dysgwyr i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, cyflwyno, monitro ac adolygu gwasanaethau cefnogi lleol? | | | |
| | 7. helpu dysgwyr i bennu nodau a chynllunio Llwybr Dysgu unigol addas gan gadw mewn cof eu sgiliau, eu priodoleddau a'u profiad ym mhob elfen o'u bywydau? | | | |
| | 8. helpu dysgwyr i ymgymryd yn llwyddiannus â'r elfennau o ddysgu o fewn eu Llwybr Dysgu? | | | |
| | 9. helpu dysgwyr i oresgyn unrhyw rwystrau sydd yn eu cadw rhag dysgu a/neu wireddu eu potensial i ddysgu? | | | |
| | 10. helpu dysgwyr i ganfod ac ymestyn eu disgwyliadau a'u dyheadau? | | | |
| | 11. helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau effeithiol a hynny ar sail gwybodaeth? | | | |

| | A ydych chi, fel rhywun sydd yn cyflawni swyddogaethau annog dysgu, yn: | Ydw | Nac ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno:** Pontio | 12. helpu dysgwyr i bontio’n llwyddiannus ar adegau o newid allweddol, megis:<br>i. pontio i ddysgu hunangyfeiriedig?<br>ii. symud lleoliad?<br>iii. symud o’r naill ddarparwr dysgu i’r llall? | | | |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | 13. cyfeirio dysgwyr, pan fo hynny’n briodol, at wasanaethau eraill ar gyfer cefnogi dysgu? | | | |
| | 14. gweithio ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill i helpu dysgwyr i gynllunio a chyflawni eu Llwybr Dysgu? | | | |
| | 15. cyflwyno gwybodaeth gefndirol briodol am unigolion i gynghorwyr Gyrfa Cymru, h.y. cyflawniadau academaidd posibl neu rwystrau cyfredol rhag datblygu? | | | |
| **Sicrhau ansawdd** | 16. gweithredu’r strategaeth sicrhau ansawdd? | | | |
| | 17. cyflwyno data/canfyddiadau sicrhau ansawdd i’r cydlynydd GBG neu berson arall a ddewiswyd i arwain? | | | |
| **Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:** | | | | |

## Rhestr gyfeirio 6: tiwtoriaid personol

| | A ydych chi, fel tiwtor personol, yn: | Ydw | Nac ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno:** Codi dyheadau/ Paratoadau | 1. helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau sydd yn eu cadw rhag cymryd rhan mewn dysgu a/neu gyflawni eu potensial i ddysgu? | | | |
| | 2. helpu dysgwyr i ganfod ac ymestyn eu disgwyliadau a'u dyheadau? | | | |
| | 3. helpu dysgwyr i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, cyflwyno, monitro ac adolygu gwasanaethau cefnogi lleol? | | | |
| **Cyflwyno:** Cynllunio | 4. helpu dysgwyr i bennu nodau a chynllunio Llwybr Dysgu unigol addas gan gadw mewn cof eu sgiliau, eu priodoleddau a'u profiad ym mhob elfen o'u bywydau? | | | |
| **Cyflwyno:** Gwneud penderfyniadau | 5. helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau effeithiol a hynny ar sail gwybodaeth? | | | |
| **Cyflwyno:** Rheoli pontio | 6. helpu dysgwyr i bontio'n llwyddiannus ar adegau o newid allweddol, megis:<br>i. pontio i ddysgu hunangyfeiriedig?<br>ii. symud lleoliad?<br>iii. symud o'r naill ddarparwr dysgu i'r llall? | | | |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | 7. cyfeirio dysgwyr, pan fo hynny'n briodol, at wasanaethau eraill ar gyfer cefnogi dysgu? | | | |
| **Sicrhau ansawdd** | 8. gweithredu strategaeth sicrhau ansawdd GBG? | | | |
| | 9. cyflwyno data/canfyddiadau sicrhau ansawdd i'r cydlynydd GBG neu berson arall a ddewiswyd i arwain? | | | |

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:**

## Rhestr gyfeirio 7: cydlynwyr profiad gwaith

| | A ydych chi, fel cydlynydd profiad gwaith, yn: | Ydw | Nac ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio | 1. sicrhau bod gwiriadau iechyd a diogelwch priodol wedi eu gwneud ynghyd â threfniadau yswiriant a threfniadau amddiffyn plant? | | | |
| | 2. gweithredu polisi cyfleoedd cyfartal wrth wneud trefniadau lleoliadau gwaith? | | | |
| | 3. cyfrannu tuag at recriwtio mwy o ddarparwyr lleoliadau? | | | |
| | 4. ystyried tueddiadau'r farchnad lafur leol ac yn gwneud eich gorau i'w hadlewyrchu wrth recriwtio darparwyr lleoliadau? | | | |
| Cyflwyno | 5. helpu dysgwyr i ddewis y lleoliad gwaith gorau ar gyfer eu diddordebau/anghenion? | | | |
| | 6. helpu dysgwyr i wneud cais am leoliad gwaith? | | | |
| | 7. annog dysgwyr sydd yn ystyried lleoliad anarferol ar gyfer profiad gwaith, a rhoi cymorth ychwanegol iddyn nhw? | | | |
| | 8. helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer eu lleoliad gwaith? | | | |
| | 9. helpu dysgwyr i ddeall beth fydd yn ddisgwyliedig ganddyn nhw yn ystod eu lleoliad? | | | |
| | 10. monitro cynnydd y dysgwyr yn ystod eu lleoliad gwaith? | | | |
| | 11. helpu dysgwyr i adolygu eu profiadau ar ôl dod yn ôl o'r lleoliad? | | | |
| Gweithio mewn partneriaeth | 12. sicrhau bod darparwyr lleoliadau'n deall beth sydd yn ofynnol ganddyn nhw a'r ffordd orau o gynorthwyo'r dysgwyr tra maen nhw yn y leoliad? | | | |
| | 13. cysylltu â chydweithwyr a phartneriaid er mwyn rhoi cefnogaeth i ddysgwyr cyn eu lleoliad, yn ystod y lleoliad ac wedyn? | | | |
| | 14. briffio staff sydd yn ymweld â dysgwyr ar leoliad a'u hannog i ddatblygu cysylltiadau cwricwlwm tra maen nhw yno? | | | |

| | A ydych chi, fel cydlynydd profiad gwaith, yn: | Ydw | Nac ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau ansawdd** | 15. darparu cyfleoedd i'r rhai sydd yn ymwneud â lleoliadau gwaith i gyflwyno adborth am eu profiadau? | | | |
| | 16. cyfrannu tuag at brosesau i ddatblygu, cyflwyno a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth GBG? | | | |
| | 17. cyflwyno data/canfyddiadau sicrhau ansawdd i'r cydlynydd GBG neu berson arall a ddewiswyd i arwain? | | | |

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:**

## Rhestr gyfeirio 8: gwasanaethau Gyrfa Cymru[16]

| | A ydych chi, fel cynghorydd Gyrfa Cymru, yn: | Ydw | Nac ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno** Cynllunio | 1. helpu dysgwyr i ddeall sut y gall eu dewis o bynciau effeithio ar eu gallu i symud ymlaen i rai o'r llwybrau dysgu a gyrfa drwy gymorth wyneb yn wyneb, gwasanaethau ar y we neu'r llinell gymorth dros y ffôn? | | | |
| | 2. helpu dysgwyr i ganfod nodau a chynllunio Llwybr Dysgu priodol ar sail eu cynlluniau gyrfa drwy gymorth wyneb yn wyneb, gwasanaethau ar y we neu'r llinell gymorth dros y ffôn? | | | |
| **Cyflwyno** Gwneud penderfyniadau | 3. helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau hyddysg am eu llwybrau dysgu a gyrfa yn y dyfodol drwy gael cymorth cynghorydd gyrfa wyneb yn wyneb neu drwy gyfeirio dysgwyr at amrywiaeth o adnoddau ar-lein neu wasanaethau ar y we? | | | |
| **Cyflwyno** Cynllunio pontio | 4. mynychu cyfarfodydd cynllunio'r cyfnod pontio ar gyfer dysgwyr sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu gyfrannu'n ysgrifenedig at y broses? | | | |
| | 5. tynnu gwybodaeth o'r cyfarfodydd adolygu blynyddol neu drosiannol er mwyn llywio cyfnod pontio cleientiaid? | | | |
| | 6. rhoi cyngor i'r dysgwyr hyn fel rhan o'r cyfnod pontio drwy gymorth wyneb yn wyneb gan gynghorydd gyrfa? | | | |

[16] Bydd Gyrfa Cymru yn darparu gwasanaeth mewn sawl ffordd. Dylai pob person ifanc gael cyfrif personol ar www.gyrfacymru.com a fydd yn rhoi'r cyfleoedd iddyn nhw ddatblygu e-bortffolio sy'n amlinellu'r nodau datblygiad personol yn unol â'u datblygiad dysgu a gyrfa. Gellir cael cyngor ac arweiniad dros y ffôn, e-bost neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gall cynghorwyr gyrfa hefyd gynnal sesiynau grŵp yn ystod cyfnodau pontio allweddol er mwyn esbonio'r adnoddau sydd ar gael i helpu i gynllunio gyrfa a'r cyfnod pontio. Gall pobl ifanc hefyd gael cyfweliadau unigol â staff cyngor gyrfaoedd, ond bydd hyn yn amodol ar fethodoleg gytûn ar gyfer asesu anghenion.

| | A ydych chi, fel cynghorydd Gyrfa Cymru, yn: | Ydw | Nac ydw | A oes angen gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithio mewn partneriaeth** | 7. trafod cytundeb partneriaeth gyda'r ysgol neu'r sefydliad dysgu sy'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol):<br>• amlinellu strategaeth ar gyfer mynediad i adnoddau'r gwasanaeth gyrfaoedd<br>• nodi'r cleientiaid hynny y mae angen cymorth wyneb yn wyneb arnyn nhw a darparu'r cymorth hwnnw gyda'r adnoddau sydd ar gael<br>• nodi dysgwyr nad oes ganddyn nhw ffocws galwedigaethol neu sy'n rhan o un o'r grwpiau â blaenoriaeth er mwyn rhoi cyngor wyneb yn wyneb neu gymorth arall<br>• cysylltu â'r staff hynny mewn ysgolion sy'n cyflawni rôl hyfforddwyr dysgu neu sy'n rhoi mathau eraill o gymorth i bobl ifanc<br>• cytuno ar ddarparu cyfleusterau priodol er mwyn cynnal cyfweliadau cyngor gyrfa ac amserlennu darpariaeth? | | | |
| **Sicrhau ansawdd** | 8. cyfrannu at brosesau sy'n ceisio datblygu, cyflawni a sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan GBG, er enghraifft yr ysgol yn gweithio tuag at gyflawni'r Nod Ansawdd Gyrfaoedd neu ddyfarniad ansawdd tebyg? | | | |
| | 9. bwydo data/canfyddiadau sicrhau ansawdd i'r cydlynydd GBG neu arweinydd arall a benodir? | | | |

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:**